

## Cofion a Chyfarchion

- Gyda thristwch y daeth y newydd am farwolaeth Mr R. J. Davies (Llanfair) yng nghartref Coed Isaf, Llanrhos ddechrau'r wythnos. Roedd Bob yn flaenor yng Nghapel Soar a bu'n ffyddlon a gweithgar yno ar hyd y blynyddoedd. Estynnwn ein cydymdeimlad cywiraf â'r plant – Anwen, Dilwyn, a Medwyn, a gweddill y teulu yn eu profedigaeth. Yn yr un modd, estynnwn ein cydymdeimlad â Gaerwyn Jones (Tanyfron) a'r teulu yn dilyn marwolaeth ei chwaer, Margaret; a hefyd Geraint Williams (Henllan) a'r teulu, yntau hefyd wedi colli chwaer. Cofiw'n yn ein gweddiâu am y teuluoedd hyn ac eraill o'r ardal sydd wedi cyfarfod â phrofedigaeth yn ddiweddar. Cyflwynwn hwy oll yn dyner i ofal yr Arglwydd a gweddiwn byddant yn profi Duw yn ddigon y dyddiau hyn.
- Parhawn i gofio am Elizabeth Jones (Llansannan) sydd bellach yn cael gofal yn yr Inffirmari. Yn yr un modd, parhawn i gofio am ffrindiau sydd mewn cartrefi gofal – Mr Maldwyn Jones (Plas Eleri); Mr Selwyn Davies, Miss W J Roberts a Mrs Menna Owen (Yr Hen Ddeondy); Mrs Gwenfyl Jones (Yr Hen Ficerdy); Mrs Eirian Davies (Canterbury House) a Mrs Elizabeth Hughes (Richmond House). Hyderwn eu bod yn profi gofal a grym ein gweddiâu drostynt.
- Llongyfarchiadau i Heddwyn a Margaret Davies (Llansannan) ar achlysur dathlu 50 mlynedd o fywyd priodasol.
- Llongyfarchiadau hefyd i Richard a Gwenfair Davies (Peniel), y ddau wedi dathlu pen-blwydd arbennig yn ddiweddar.

## I ddod

- **CYNHADLEDD UNDYDD DYDD GWEDDI BYD-EANG Y CHWIORYDD** yng Nghapel Trefnant dydd Mercher, Tachwedd 12fed o 10.00 – 3.00.
- **PENWYTHNOS BLAENORIAID** yng Ngholeg Trefeca – Tachwedd 14eg-16eg. Bydd rhaglen amrywiol yn cynnwys cyfle i gyfarfod Llywydd y Gymanfa Gyffredinol, y Parch. Neil Kirkham; cyflwyniad i'r rhaglen CAMU gan Meleri Cray; cyfle i weld yr arddangosfa newydd o greiriau'r Cyfundeb yng nghwmni Rhidian Griffiths, a bydd Jenny Garrard yn trafod sut y gall eglwysi a gofalaethau ddechrau darparu gweinidogaeth o'u plith eu hunain. Rhoddir sylw hefyd i'r Llawlyfr Blaenoriaid diwygiedig a chynhelir astudiaeth Feiblaidd ac oedfa ar y bore Sul. Mae croeso i flaenoriaid hen a newydd i ddod i drafod, cymdeithasu, addoli a dysgu. Cost y penwythnos fydd £85. Mwy o fanylion gan Reolydd Coleg Trefeca: 01874 711423 / [colegtrefeca@ebcpcw.org.uk](mailto:colegtrefeca@ebcpcw.org.uk).
- **BYW A DWEUD – Diwrnod i'n harfogi a'n hysbrydoli i rannu ein ffydd ag eraill** gyda Graham Daniels, Cyfarwyddwr *Christians in Sport* yn Eglwys Crist, Y Bala dydd Sadwrn, Tachwedd 29ain. £19 fydd cost y diwrnod gan gynnwys cinio yng Ngholeg y Bala, neu £13 os byddai'n well gennyh ddod â'ch pecyn bwyd eich hun. Os am ffurflen archebu, ewch i wefan [www.souledoutcymru.net](http://www.souledoutcymru.net) neu cysylltwch â Mair.

## Llais Bro Aled

Dydd Sul, 2<sup>il</sup> Tachwedd 2014

Darlleniad y Dydd

Salm 84

(BCND tud.539 / BCN: tud.492)

[www.eglwysibroaled.com](http://www.eglwysibroaled.com) / [www.thaglendorcas.com](http://www.thaglendorcas.com) / [www.llanw.org](http://www.llanw.org) / [www.dawncymru.org](http://www.dawncymru.org)

Pobl sy'n gwneud eglwys, nid adeiladau. Ac er gwycheder ambell i gapel ac eglwys, pobl, nid cerrig a mortar fydd yna yn y nefoedd! Da i ni gofio hyn ar drothwy dathlu can mlynedd adeilad presennol Capel Coffa Henry Rees. Ond, gyda'r salmydd, byddwn yn codi ein golygon tua pebyll yr Arglwydd yn 'dyheu hyd at lewyg' am bresenoldeb Duw ei hun. Felly bydd croeso mawr i bawb ymuno â'r gynulleidfa a'r plant nos Lun am 7.00 pryd y cawn oedfa yng nghwmni'r cyn-weinidogion a'u teuluoedd, a chyfle i hel atgofion ac edrych ymlaen.

Un o 'utgyrn Seion' oedd Henry Rees. Pregethwr, gyda'r mwyaf a welwyd yng Nghymru erioed, ac mae hynny'n ddweud mawr o gofio pregethwyr mawr y diwygiadau. Braff iawn yw cael rhannu'r adeilad erbyn hyn hefo Eglwys Hiraethog – llysenw brawd Henry, William Rees – fel y gwyddom a oedd yr un mor ddylanwadol gyda'r Annibynwyr. Braff iawn hefyd fydd cael y cwmwl tystion o'n cwmmpas yn ein hannog i redeg yr yrfa a ddarparwyd gan Dduw ar ein cyfer ni gan edrych ar Iesu, Tywysog a Pherffeithydd ein ffydd (Hebreaidd 12).

Mae'n siŵr mai cysgod o'r olwg yna ar Iesu oedd yng nghalon y Salmydd wrth iddo feddwl am 'bebyll Duw' a'u hawddgarwch. Da i ni gofio hyn hefyd wrth dathlu – sef mai golwg ar Iesu sy'n iacháu ac yn bywhau – fel edrych ar y sarff bres honno yn yr anialwch. (Ioan 3:15) Mae hawddgarwch Duw yng Nghrist mor fawr fedrwn ni ddim ond rhyfeddu ac addoli. Diddorol ydi'r cyfeiriad yn adnod 5 o'r Salm fod y ffordd sy'n arwain at Dduw a'i hawddgarwch yng nghalon y Cristion ac y mae'n diolch am 'ffordd y pererinion' sy'n ein harwain at hyfrydwch cwmni Duw.

Wrth gerdded y llwybrau cyfarwydd i oedfaon y dydd heddiw, gweddiwn y cawn ninnau olwg newydd ar ogoniant Iesu a fydd yn gwneud y gwahaniaeth mwyaf yn ein bywyd. Gwirionedd rhyfeddol arall yn y Salm ydi'r hyn sy'n newid ym myd y Cristion wrth iddo gerdded llwybr y pererinion tuag at Dduw. Mae'n cael dyffryn Baca – dyffryn sych a digysur fel arfer – yn ffynnon! Nerth gras Duw yn unig sy'n gallu gwneud hyn. Bydd glaw cynnar yn gorchuddio'r dyffryn a bydd y lle crasboeth yn cael ei 'orchuddio â bendith'. Gweddiwn dros ein gilydd hefyd y bydd y rhai o'n plith sy'n wynebu'r dyffrynnoedd sychion, digysur, yn cael presenoldeb Duw a'i Air heddiw yn gysur ac yn ffynnon fywiol i'w cynnal.

Diolch i Dduw am gynnal ei bobl ar draws y cenedlaethau a diolch am gyfle arall i'w glodfori yng nghwmni ein cyd-fforddion!

*Aneurin*

## Cyhoeddiadau

### Y Fro

- Sul yma • **Oedfa Arbennig i'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Huw Tan y Graig, a bydd y Parch. Meirion Morris yn pregethu.
- Mawrth • **Cyfarfod Gweddi'r Fro** yn Groes am 7.30.
- Mercher • **Adnabod yr Angen** – cyfle i foli a gweddio yn Festri Llansannan am 8.00.
- Iau • **Cyfarfod Plant Llanefydd** am 3.15.
- Gwener • **CAP/C.I.C. hogiau** ar gyfer pobl ifanc oed uwchradd yn Llansannan rhwng 7.30 a 9.15.
- Sul nesaf • **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Alun Jones, a bydd Aneurin yn pregethu.

### Llanfair a Chefn Meiriadog

- Sul yma Bydd y Parch. Trefor Lewis yn arwain oedfa i'r daith yn Llanfair am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yng Nghefn Meiriadog am 10.30 ac yn Llanfair am 11.00.
- Sul nesaf Bydd Aneurin yn arwain oedfa i'r daith yn Llanfair am 10.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanfair am 11.00 ac yng Nghefn Meiriadog am 2.00.

### Llansannan

- Sul yma Bydd Aneurin yn arwain oedfa gymun am 10.00 a bydd Ysgol Sul y plant yn cydreddeg. Cynhelir Ysgol Sul yr oedolion am 11.10.
- Llun Oedfa i Ddathlu Canmlwyddiant Capel Coffa Henry Rees yn Llansannan am 7.00. Edrychwn ymlaen i groesawu'r cyn-weinidogion a'u teuluoedd, a chyfeillion o bell ac agos i ddathlu gyda ni. Croeso cynnes iawn i bawb.
- Iau Cinio'r Jangl am 12.00.
- Sul nesaf Bydd Rhodri yn arwain oedfa am 10.00 a bydd Ysgol Sul y plant yn cydreddeg. Byddwn yn ymgynnull wrth y gofeb ar gyfer Gwasanaeth Sul y Cofio am 10.50.

### Tanyfron a Nantglyn

- Sul yma Bydd Aneurin yn arwain oedfa i'r daith yn Nantglyn am 2.00.
- Sul nesaf Bydd Rhodri yn arwain oedfa deulu i'r daith Nhanyfron am 2.00.

## Cyhoeddiadau

### Saron a Pheniel

- Sul yma Bydd Rhodri yn arwain oedfa i'r daith yn Saron am 10.00 a bydd yr Ysgol Sul yn cydreddeg. Cynhelir Ysgol Sul ym Mheniel am 2.00.
- Sul nesaf Bydd oedfa wedi ei threfnu i'r daith ym Mheniel am 10.00 a bydd yr Ysgol Sul yno am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Saron am 10.00 ond sylwch na fydd oedfa yno'n y prynhawn.

### Henllan a Groes

- Sul yma Bydd Rhodri yn arwain oedfa i'r daith yn Groes am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Henllan a Groes am 10.00.
- Sul nesaf Cynhelir Oedfa Thema yn Henllan am 10.00 a bydd yr Ysgol Sul am 2.00. Yr Ysgol Sul fydd am 10.00 yn Groes a bydd Mr Arawn Glyn yn arwain oedfa yno am 2.00.

### Llanefydd a Chefn Berain

- Sul yma Bydd Mr Celfyn Williams yn arwain oedfa yn Llanefydd am 10.00 ac yng Nghefn Berain am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yng Nghefn Berain am 10.00. Bydd Ysgol Sul y plant yn cydreddeg ag oedfa'r bore yn Llanefydd, a'r oedolion am 11.00.
- Iau Oedfa Ddiolchgarwch Cefn Berain yng nghwmni y Parch. Tecwyn Ifan am 7.00. Paned i ddilyn. Croeso cynnes i bawb.
- Sul nesaf Bydd Aneurin yn arwain oedfa i'r daith yng Nghefn Berain am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanefydd a Chefn Berain am 10.00.

### Dalier Sylw

Dylid danfon unrhyw gyhoeddiadau am yr wythnos i:

- Mair – ✉ mair@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870632 📞 07900 627536,  
Rhodri – ✉ rhodri@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870522 📞 07814 660291 neu i  
Aneurin – ✉ aneurin@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870618 📞 07775 701102  
erbyn 9.00 nos Fercher fan bellaf.

### Eglwysi Bro Aled

Ein nod yw tystio i efengyl Duw, yn effeithiol ac yn gyfoes, drwy gyfeirio'n holl adnoddau i ddyrchafu Iesu, a chyrraedd ein cymunedau.

### Darlleniad Wythnos Nesaf

Amos 5:1-9 (BCND tud.834 / BCN: tud.759)